# Canllaw Athrawon 2025-26

## Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion




**Mae Ymchwiliad Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion wedi bod yn rhedeg ers 2005 ac rydym yn dathlu ein pen-blwydd 20 mlynedd eleni! Mae gennym nifer o weithgareddau ac adnoddau ychwanegol wedi'u cynllunio fel rhan o'r dathliadau hyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael y tu mewn!**

Rydyn ni'n croesawu rhai ysgolion newydd i'r ymchwiliad ac yn parhau i weithio gyda'r rhai sydd wedi bod gyda ni ers y dechrau.

Rydyn ni'n dal i gydweithio ag Ymddiriedolaeth Edina sy'n noddi'r potiau a'r bylbiau ac yn ehangu cyrhaeddiad y project! Eleni, bydd 178 o ysgolion yn cymryd rhan; 82 o Gymru, 50 o Loegr, 27 o'r Alban a 19 o Gogledd Iwerddon.

Mae adnoddau ar gyfer pob cam o'r project i gael ar y wefan:
www.amgueddfa.cymru/dysgu/bylbiaur-gwanwyn-i-ysgolion

AMGUEDDFA CYMRU

Edina Trust Bulb Project

# Gweithgaredd

**3 Hyd**

- Agorwch eich pecyn i sicrhau bod popeth yno ac agorwch y bagiau bwlb fel ei bod nhw yn cael aer. Cadwch y bylbiau mewn lle oer a sych cyn eu plannu.

**13 Hyd**

- Cyflwyno'r project i'r disgyblion a pharatoi i blannu. Trafodwch y cystadlaethau Diwrnod Plannu a Bylbcast. Profi eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair.

**20 Hyd**

- Diwrnod plannu! Cofiwch dynnu lluniau ar gyfer y gystadleuaeth. Byddwch mor greadigol ag y gallwch gyda'ch cyflwyniadau (dyddiad cau 7 Tachwedd).

**3 Tach**

- Dechrau cadw cofnodion tywydd a parhau tan 27 Mawrth (rhowch 'dim cofnod' am ddyddiau mae'r ysgol ar gau). Rhannwch eich data yn wythnosol i wefan yr amgueddfa.

**5 Ion**

- Anogwch y disgyblion i edrych ar y bylbiau yn rheolaidd, i wylio nhw'n tyfu. Gofnodwch ddyddiad blodeuo a thaldra'r planhigion a rhannwch hyn i wefan yr amgueddfa.

**27 Maw**

- Dyddiad cau ar gyfer anfon pob cofnod blodyn unigol a chofnodion tywydd yr ysgol i'r wefan. Bydd cyfle i ennill gwobr i'r dosbarth os ydych chi'n cyflwyno eich data i gyd. Cofiwch gystadlu yng nghystadleuaeth Bylbcast (dyddiad cau 27 Mawrth).

**18 Mai**

- Bydd enillwyr y gystadleuaeth yn cael eu cyhoeddi ar y wefan. Bydd ysgolion sydd wedi rhannu data yn derbyn tystysgrifau, pensiliau a hadau erbyn diwedd y mis.

**22 Meh**

- Bydd adroddiad diwedd blwyddyn Athro'r Ardd yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

# Gweithgareddau Dathlu'r 20fed

**14 Ion**

- Gweithdy rhithiol: Darlunio Fel Artist, Meddwl Fel Gwyddonydd! Ymunwch â ni'n ddigidol i archwilio'r wyddoniaeth tu ôl i ddarluniau botanegol.

**21 Ion**

- Gweithdy rhithiol: Cymryd rhan mewn Paent Ynghyd - Botaneg. Byddwn yn dilyn ein harlunydd preswyl i greu campweithiau cenhinen Pedr.

**31 Ion**

- Dyddiad cau'r gystadleuaeth: Bo Botanegydd: Enwch Cennin Pedr Newydd! Mae gennym amrywiaeth newydd o genhinen Pedr i ddathlu'r prosiect, rhannwch eich enw erbyn 31 Ionawr!

**4 Maw**

- Gweithdy rhithiol: Arwyddion Hinsawdd: O'r Gorffennol i'n Dyfodol. Ymunwch â ni ar-lein i ddysgu mwy am newid yn yr hinsawdd a'r gwahaniaeth y gallwn ni i gyd ei wneud.

**11 Maw**

- Gweithdy rhithiol: Cymhwyso newid: Addo dros y Ddaear. Byddwn yn dod at ei gilydd i rannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu a'i ysbrydoli'n gilydd.

**15 Mai**

- Gweithdai wyneb yn wyneb: Archwiliwch Natur yn Sain Ffagan! O 15 Mai byddwn yn cynnig gweithdai natur wyneb yn wyneb am ddim i ysgolion sy'n cymryd rhan.

## Sganiwch yma i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn:






# Pecyn Ymchwilio



Caiff eich pecyn ymchwilio Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion ei anfon at eich ysgol erbyn 3 Hydref. Cadwch y bylbiau mewn lle oer a sych cyn eu plannu. Fydd y bylbiau ddim yn cael digon o aer o'u cadw yn y bocs. Plîs gwiriwch gynnwys eich pecyn a rhowch wybod i ni os oes unrhyw beth ar goll.

**Dylai'r pecyn gynnwys:**
- 1 bwlb cennin Pedr i bob disgybl (Tenby Daffodil)
- 1 bwlb crocws i bob disgybl (Whitewell Purple)
- Bylbiau dirgel
- 1 potyn i bob disgybl (oni bai eich bod wedi eithrio)
- Pot ychwanegol ar gyfer bylbiau dirgel
- Thermomedr (oni bai eich bod wedi eithrio)
- Mesurydd glaw (oni bai eich bod wedi eithrio)
- Taleb i brynu pridd
- Adnoddau papur




# Paratoi i blannu



Cyn plannu, bydd angen i ddisgyblion enwi a mabwysiadu eu bylbiau a gwneud labeli ar gyfer eu potiau. Dyma amser da i drafod beth sydd ei angen ar blanhigyn i dyfu, ac i benderfynu ble i osod y bylbiau yn yr awyr agored ar dir eich ysgol.

**Defnyddiwch yr adnoddau isod:**
- Llythyr oddi wrth Athro'r Ardd
- Mabwysiadu a gofalu am eich bylbiau
- Labelu'r bylbiau
- Tystysgrif mabwysiadu



Cofiwch brynu compost cyffredinol gyda'ch taleb cyn diwrnod plannu. Defnyddiwch yr amser hwn i brofi eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair ac ymgyfarwyddo disgyblion hefo'r gwefan.




# Diwrnod Plannu



Rhaid i bob ysgol blannu eu bylbiau ar y dyddiad hwn er mwyn sicrhau prawf teg. Os na fedrwch blannu ar y dyddiad hwn, gwnewch hynny cyn gynted â phosib, gan nodi'r dyddiad.

Bydd angen i ddisgyblion blannu eu bylbiau a chysylltu'r labeli a baratowyd. Bydd angen cael pridd cyffredinol yn barod ar gyfer y gweithgaredd hwn ond nid oes angen rhaw. Trafodwch reolau diogelwch gyda'r dosbarth cyn plannu.

**Defnyddiwch yr adnoddau isod:**

- Plannu eich bylbiau
- Gwnewch lyfryn origami

(amdan fywyd cudd y bwlb)






# Cystadlaethau



Cystadleuaeth Diwrnod Plannu: Am gyfle i ennill rhannwch luniau o'ch dosbarth yn plannu eu bylbiau erbyn 7 Tachwedd.

Cystadleuaeth Bylbcast: Creu fideos byr sy'n arddangos rhannau gorau o'r project a'u rhannu erbyn 27 Mawrth. Gellir ddod o hyd i adnoddau i gefnogi hyn ar y wefan.

Gall ysgolion yng Nghymru anfon eu lluniau i Amgueddfa Cymru trwy dudalen X/Twitter Athro'r Ardd @Professor_Plant neu'r cyfeiriad e-bost yma: scan@amgueddfacymru.ac.uk






# Cofnodion Tywydd



Bydd disgyblion yn dechrau casglu gwybodaeth, defnyddio offer ac anfon data drwy'r wefan o fis Tachwedd ymlaen. Rhowch 'dim cofnod' ar gyfer unrhyw ddyddiad mae'r ysgol ar gau neu nad ydych yn gallu casglu darlleniadau tywydd. Gallwch ychwanegu fanylion am hyn o dan 'sylwadau' wrth rannu eich data.

Plîs sicrhewch bod pob disgybl yn cael tro i gofnodi data tywydd a uwchlwytho hyn i'r wefan. Eleni rydym yn cyflenwi calendr i gofnodi eich darlleniadau tywydd dyddiol ac i gofnodi bod data wythnosol wedi'i uwchlwytho i'r wefan. Mae'r calendr yn rhestru pum grŵp ac yn nodi'n glir pa grŵp sy'n gyfrifol am ddarlleniadau bob dydd.

Os mae'n bosib, mae'n well i gymryd darlleniadau ar yr un pryd bob dydd. Trafodwch y ffordd gorau i afaelio'r dasg hon hefo'r dosbarth. Anogi'r disgyblion i gymryd perchnogaeth o'r project a chyfrifoldeb am gasglu data. Os bydd disgyblion yn anfon data yn wythnosol gall ysgolion gymharu cofnodion tywydd, astudio'r map ac adnabod tueddiadau lleol. Anfonwch y canlyniadau yn wythnosol ar brynhawn dydd Gwener os yn bosibl. Mae mewnbynnu data yn rheolaidd yn cynyddu eich siawns o ennill gwobrau ar ddiwedd y project!

Bydd angen i athrawon gasglu: 1 glawfesurydd, 1 thermomedr, prennau mesur, pensiliau, siart dywydd a'ch enwau defnyddwyr a chyfrineiriau (yn barod i fewngofnodi i'r wefan).

**Defnyddiwch yr adnoddau isod:**

- Cadw cofnodion tywydd
- Siart tywydd
- Y Crocws
- Y Cennin Pedr
- Map Ysgolion
- Data Tywydd Ysgolion
- Canlyniadau blaenorol
- Adroddiad 2024-25






# Cofnodion Blodau



Anogwch ddisgyblion i ymweld â'u bylbiau yn rheolaidd rhwng Ionawr a Mawrth. Gofynnir i bob disgybl gofnodi'r dyddiad y mae eu planhigyn yn blodeuo a'i uchder ar y dyddiad hwnnw ar wefan yr amgueddfa. Dylai disgyblion barhau i gadw cofnodion tywydd fel yn y tymor blaenorol. Gall disgyblion roi diweddariad i Athro'r Ardd ar sut mae eu planhigion yn tyfu drwy nodi sylwadau gyda'u data tywydd wythnosol.

Anogwch y disgyblion i wylio'r map blodeuo er mwyn gweld ble mae'r blodau yn agor gyntaf, ac astudio'r patrymau tywydd er mwyn ceisio dyfalu pam fod y bylbiau yn agor ynghynt mewn rhai ardaloedd.

Defnyddiwch PowerPoint 'Cadw Cofnodion Blodau' er mwyn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwybod beth i'w gofnodi a phryd. Cyn gynted ag y bo blodyn yn agor, gofynnwch i'r disgybl fewngofnodi i'r wefan a chofnodi'r dyddiad blodeuo. Yn syth wedi i cofnod gael ei derbyn, dylai blodyn ymddangos uwchben eich ysgol ar y map blodau a dylai'r dyddiad ymddangos ar y siart flodau. Gofynnwch i bob disgybl anfon eu cofnod wrth i'r blodau agor, fel y gall y wefan gyfrifo dyddiad blodeuo cyfartalog eich ysgol. Gellir defnyddio hyn i gymharu tueddiadau.

Gall hyn fod yn amser da i drafod oblygiadau posib o newid hinsawdd, a rhoi pwysigrwydd yr ymchwiliad yn ei gyd-destun. Gweler adnoddau sy'n ymwneud a newid hinsawdd ar wefan yr amgueddfa.

Gall disgyblion greu diagram o'r planhigyn gan dynnu sylw at strwythur a diben y ddeilen, gwreiddiau, blodyn ac ati. Mae yna enghreifftiau ac adnoddau i helpu labelu rhannau o'r planhigyn ar y wefan. Awgrym Gorau: Cofrestrwch ar gyfer y gweithdai rhithiol sy'n archwilio'r themâu hyn!

Gall disgyblion fynd â'r cennin Pedr adre gyda nhw pan fydd wedi blodeuo (gyda chaniatâd yr athro). Rhannwch yr adnodd 'Gofal Bylbiau' hefo disgyblion.






# Tystysgrifau Gwyddonwyr Gwych

Bydd pob disgybl sy'n anfon ei gofnodion yn derbyn tystysgrif Gwyddonydd Gwych, pensiliau a hadau. Anfonwch bob cofnod tywydd a blodau at Athro'r Ardd drwy'r wefan erbyn 27 Mawrth.

Peidiwch â phoeni os nad yw rhai planhigion wedi blodeuo erbyn diwedd y tymor. Gofynnwch i'r disgyblion fynd â'u planhigion adref gyda nhw ar gyfer y gwyliau. Gofynnwch i'r plant yma cofnodi'r dyddiad blodeuo o gartref. Rydym yn gofyn am ddyddiad blodeuo ar gyfer cennin Pedr a chrocws o bob disgybl. Bydd hyn yn bwydo mewn i'r dyddiad blodeuo cyfartalog ar gyfer eich ysgol. Os nad yw planhigyn yn cynhyrchu blodyn, yna nodwch y taldra i'r wefan gyda '00-00-00' fel y dyddiad.

Ar ddiwedd y project, ailddefnyddiwch neu ailgylchwch eich potiau. Os byddwch yn gwneud cais i gymryd rhan eto, gallwch ofyn i ailddefnyddio eich potiau. Mae'r potiau wedi'u gwneud o blastig sef wedi'i ailgylchu ac maent yn gwbl ailgylchadwy.

Bydd tystysgrifau a gwobrau yn cael eu hanfon i ysgolion a enillir wythnos o 18 Mai. Bydd ysgolion buddugol pob gwlad yn derbyn gwobrau ar gyfer eu dosbarth. Bydd yr ysgol fuddugol i Gymru yn cael taith dosbarth i safle Amgueddfa Cymru, gyda llogi bws a sesiynau hwyluswyd. Gallwch ddarllen am daith y rhai a enillodd yn llynedd yma:

https://amgueddfa.cymru/blog/2524/Enillwyr-Bylbiaur-Gwanwyn-i-Ysgolion-yn-ymweld-ag-Amgueddfa-Werin-Cymru-Sain-Ffagan

Bydd adroddiad diwedd blwyddyn Athro Ardd yn cael ei gyhoeddi ar y wefan erbyn 22 Mehefin. Cofiwch i...

**Dilynwch y Blog Bylbiau**
**Dilynwch Athro'r Ardd ar Twitter**
**Defnyddiwch adnoddau ar y wefan**

